Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

11 Ebrill 2022

Annwyl Paul,

Gweler isod yr wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn fy ymddangosiad diweddar ym Mhwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 17 Mawrth.

Rydym yn buddsoddi dros £500 miliwn yn y Warant i Bobl Ifanc yn 2022-23, ac mae'r £20 miliwn hwn yn **gyllid newydd** sydd wedi'i ddyrannu ym Mhrif Grŵp Gwariant yr Economi i Linell Wariant y Gyllideb ar gyfer Cyflogadwyedd gan gynnwys Gwarant Pobl Ifanc, i gefnogi'r garfan newydd ddisgwyliedig o Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn 2022-23. Yn 2023-24 byddwn yn buddsoddi £5 miliwn o gyllid newydd ychwanegol (cyfanswm o £25 miliwn) ac yn 2024-25 byddwn yn buddsoddi £5 miliwn arall (cyfanswm o £30 miliwn) i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Warant i Bobl Ifanc.

Mae'r arian ychwanegol hwn wedi galluogi cynnydd o £3 miliwn mewn contractau JGW+ yn 22-23 a £2.5m yn 23-24, gyda chyllid ychwanegol yn 24-25 i fynd tuag at wrthbwyso colli ESF pan ddaw prosiectau i ben yn 2023

Rydym yn parhau i leoli prentisiaethau gradd fel rhan annatod o'n mesurau twf economaidd: sy'n hanfodol ar gyfer adeiladu gweithlu'r dyfodol; cefnogi cynhyrchiant, arloesedd a swyddi; a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi cynllun polisi prentisiaethau wedi'i ail-adnewyddu ym mis Mai. Bydd prentisiaethau uwch a gradd yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Rydym yn cynyddu'r gyllideb ar gyfer prentisiaethau gradd rhwng 2022-23 a 2024-25 ac rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC) a chyrff cyflogwyr i bennu blaenoriaethau. Rydym yn disgwyl ehangu cyrhaeddiad y cynnig digidol a pheirianneg presennol a symud i sectorau newydd.

Bydd y sectorau newydd ar gyfer datblygu'r fframwaith prentisiaethau yn adlewyrchu ein huchelgeisiau ar gyfer sgiliau gwyrdd a dulliau sero net. Rydym hefyd am i'r dulliau hyn ymestyn i lawr i'r brif raglen i gefnogi dysgu ar lefelau a dilyniant is.

Yn draddodiadol, mae galwedigaethau digidol a pheirianneg yn cael eu dominyddu gan ddynion. Rhaid inni fynd i'r afael yn well ag anghydbwysedd rhwng y rhywiau. Mae llawer o weithgarwch ar gael – rwyf am sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu.

Gan ein bod bellach yn symud i ffwrdd o'r cyfnod peilot ac yn prif ffrydio'r rhaglen mae angen i ni edrych ar farchnata a meithrin gallu a sicrhau bod gennym y cydbwysedd cywir rhwng uwchsgilio'r gweithlu presennol a chefnogi newydd-ddyfodiaid yn enwedig pobl ifanc sydd wedi eu heffeithio'n ddrwg gan y pandemig.

Mae ein cynlluniau'n cael eu llywio gan Adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) a gomisiynwyd gan CCAUC o brentisiaethau gradd a gwerthusiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o'r rhaglen. Mae'r rhain yn rhoi'r hyder i ni symud ymlaen.

Fy nod yw lansio'r Weledigaeth Strategol a Rennir ar gyfer y sector manwerthu ddiwedd mis Mai.

Yn ddiweddar, cyhoeddais ragflaenydd y Weledigaeth, Datganiad Sefyllfa ar gyfer Manwerthu, sy'n amlinellu'n glir yr heriau sy'n wynebu'r sector, a'i randdeiliaid, ac ymrwymiad i ddatblygu cynllun a gweledigaeth strategol glir ar gyfer y dyfodol. Cynllun sy'n cael ei arwain gan y Llywodraeth, ond sy'n cael ei ddatblygu gyda'r sector manwerthu yn ei gyfanrwydd ac ar ei gyfer; ei fusnesau, ei gyflogwyr a'i weithwyr.

Bydd y Weledigaeth yn adeiladu ar y datganiad sefyllfa hwn ac yn cefnogi sector manwerthu cynaliadwy, un a fydd yn ffynnu ac yn un lle bydd proffil gweithwyr y sector yn tyfu mewn statws. Rwyf am i fanwerthu ddod yn yrfa o ddewis sy'n cynnig gwaith diogel, teg, sicr a gwerth chweil.

Mae'r Weledigaeth hon ar gyfer y sector manwerthu yng Nghymru yn nodi dechrau deialog barhaus o fewn ac am y sector.  Mae dealltwriaeth y Llywodraeth o bwysigrwydd y sector i'n heconomi a'n cymdeithas bellach wedi'i gwreiddio'n gadarn a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu wrth ddatblygu polisïau yn y dyfodol.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sgwrs barhaus, drwy'r Fforwm Manwerthu i fynd i'r afael nid yn unig â'r pwysau presennol ond hefyd y dyfodol a heriau anhysbys y dyfodol o bosibl.

Er nad oes cyllideb wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â'r Weledigaeth, bydd yn rhoi grym i'r sector gael mynediad i ffrydiau ariannu presennol, ac yn 2022-23, rydym yn parhau i gefnogi'r sector manwerthu drwy adferiad drwy ddarparu £116 miliwn o gymorth ardrethi annomestig wedi'i dargedu i fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch.

Rydym yn ymwybodol iawn nad oes atebion cyflym, atebion hawdd na chyllidebau diddiwedd.  Yr hyn sydd gennym, fodd bynnag, yw parodrwydd i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda Llywodraeth Cymru, cyflogwyr, cyrff sy'n cynrychioli busnesau ac undebau llafur yn gweithio gyda'i gilydd i ddeall ble'r ydym yn awr, ble y rydym am gyrraedd a sut y gallwn gyrraedd yno. Dyna pam y llynedd gyda

chefnogaeth y Dirprwy Weinidog dros Bartneriaeth Gymdeithasol y gwnaethom sefydlu'r Fforwm Manwerthu i ddechrau'r sgwrs hon.

Byddwn yn hapus i roi diweddariad pellach i'r Pwyllgor unwaith y bydd y Weledigaeth Strategol a Rennir wedi'i chyhoeddi.

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy